***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1760 (Cy. 244)

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

## Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau yn adrannau 8(10)(b) ac 20(1) a (2) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013(**1**) ac ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n briodol yn eu barn hwy yn unol ag adran 20(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 20(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015 a deuant i rym am 00:01 ar 1 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Personau na chânt weithredu o dan benodiad**

**2.** At ddiben darparu cydsyniad datganedig o dan adran 3 o'r Ddeddf, ni chaiff person weithredu o dan benodiad os nad yw'r galluedd gan y person hwnnw i ddeall y cysyniad o gydsynio i weithgaredd trawsblannu.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Hydref 2015

(**1**) 2013 dccc 5.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") (2013 dccc 5).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y disgrifiad o bersonau na chânt weithredu fel person penodedig at ddibenion y Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.